**Polisi Amgylcheddol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**

Mae Polisi Amgylcheddol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn berthnasol i bob agwedd ar ei waith. Mae'n cydnabod ei gyfrifoldeb, fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau, i warchod yr amgylchedd. Bydd yn gweithredu'n gyfrifol i gyfrannu at ymdrechion byd-eang i leihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.

Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau parhaus yn ei berfformiad amgylcheddol ac wrth atal llygredd er mwyn sicrhau y caiff effeithiau negyddol eu rheoli, eu lleihau neu eu dileu. Bydd ei weithgareddau'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol sydd mewn grym.

Ymysg y camau y mae'r Gymdeithas yn eu cymryd at amddiffyn yr amgylchedd mae: lleihau gwastraff trwy ei ailgylchu; gwaredu gwastraff a deunydd pacio trwy ddulliau diogel a chyfrifol; bod yn ddarbodus gydag adnoddau gan barhau i ddarparu amgylchedd gwaith diogel a chyfforddus; hybu'r defnydd helaethaf posibl o dechnoleg gwybodaeth; ac annog cyd-deithio i gyfarfodydd a defnyddio cludiant cyhoeddus,

Mae'r Gymdeithas yn denant i Gyngor Gwynedd yn Intec, Parc Menai, Bangor. O'r herwydd, mae hefyd yn cydymffurfio â pholisïau'r sefydliad hwnnw ynglŷn â'r amgylchedd a chynaliadwyedd lle bo hynny'n briodol.

Mae'r Gymdeithas yn sylweddoli bod arferion gwaith dyddiol yn effeithio ar ffactorau amgylcheddol a'i bod yn hollbwysig gweithredu'n gyson ac yn gyfrifol i gyfrannu at ymdrechion byd-eang i leihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. Mae'r polisi amgylcheddol hwn yn berthnasol i bob agwedd ar waith y Cwmni.

Mae'r Gymdeithas yn ymrwymo i gyfrannu at amddiffyn yr amgylchedd trwy:

- gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol sydd mewn grym.
- manteisio ar bob cyfle i hybu arferion gwaith da mewn cyd-destun amgylcheddol a'u hadolygu'n gyson.
- dewis adnoddau a deunyddiau gwaith addas a wnaiff y niwed lleiaf i'r amgylchedd.
- lleihau gwastraff trwy gwtogi, ailddefnyddio ac ailgylchu a chan ddefnyddio nwyddau a ailgylchwyd pan fydd hynny'n bosibl.
- fod yn ddarbodus gydag ynni, dŵr, pren ac adnoddau eraill gan barhau i ddarparu amgylchedd gwaith diogel a chyfforddus.
- lleihau'r defnydd o bapur wrth weithredu o ddydd i ddydd trwy annog y defnydd helaethaf posibl o dechnoleg gwybodaeth, argraffu/llungopïo dwyochrog ac yn y blaen.

- annog defnyddio cludiant cyhoeddus, cyd-deithio i gyfarfodydd er mwyn lleihau’r defnydd o geir preifat a defnyddio platfformau ar-lein.

- hybu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ymysg ei staff a’u hannog i weithredu’n effeithiol a chyfrifol ar bob achlysur.

- chwilio’n barhaus am ffyrdd o wella ei berfformiad amgylcheddol.

**Cymeradwywyd gan y Bwrdd**: Chwefror 2026

**Dyddiad Adolygu Nesaf:** Chwefror 2027